

Adroddiad Arolygu Ysbyty AGIC (Dirybudd)

Ward Bryngofal, Ysbyty'r Tywysog
Philip, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda

Dyddiad yr arolygiad: 11, 12 a 13 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 11, 12 a 13 Gorffennaf 2022. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Bryngofal - 17 gwely yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys tri Arolygydd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm staff ymroddedig a oedd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad. Gwnaeth cleifion y siaradasom â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus, gan nodi eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar unrhyw faterion a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid gwneud gwaith i wella gwedd yr ardd i'r cleifion a rhoi mainc newydd yn lle'r un sydd wedi torri.
- Mae angen ailaddurno a rhoi lloriau newydd yn ardaloedd y cleifion.
- Gallai'r ward fod yn fwy cartrefol a chroesawgar, gan ei bod yn ymddangos yn llwm a chlinigol mewn manau.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu yn barchus â'r cleifion
- Roedd gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant
- Gwnaeth y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cadw i safon dda. Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach ynghylch gweinyddiaeth y Ddeddf.

Dyma rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Lluoio polisi ynglŷn â hyfforddi staff banc mewn ymyriad corfforol cyfyngol gan fod yr uned yn ward ar ei phen ei hun heb fantais mynediad at staff o wardiau eraill i ddarparu cymorth.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau'n cael eu cynnal
- Roedd cynlluniau gofal yn fanwl ac roedd dystiolaeth glir bod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty. Roedd arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol yn cael ei harddangos gan reolwr y ward.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael
- Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau archwilio a chyfarfodydd rheolaidd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion yn ymwneud â gofal y cleifion.

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion yn ystod yr arolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cafwyd cyfanswm o bump o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd pob un o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn yr ysbyty. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos drwy'r adroddiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gweld tystiolaeth bod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol yn ogystal ag asesiadau o'u gofal iechyd meddwl wrth gael eu derbyn. Roedd y cleifion hefyd yn cael gwiriadau iechyd corfforol parhaus yn ystod eu harhosiad, megis rheoli a monitro pwysau. Cofnodwyd mesuriadau ar siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac mewn cynlluniau gofal iechyd a llesiant corfforol.

Byddai defnyddio proffil gwella iechyd corfforol yn helpu i fonitro iechyd corfforol cleifion. Dylai gwiriadau gynnwys pwysau, BMI, cylchedd gwasg, pwysedd gwaed, proffil Lipid, sgrinio ar gyfer ymwrthedd i inswlin a diabetes, yn ogystal â gwiriadau deintyddol a llygaid, statws ysmegu, ac atgyfeirio at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu os oes angen ar gyfer cyngor arbenigol; dylai gwiriadau llesiant ac atgyfeiriadau sy'n benodol ar gyfer dynion a merched hefyd fod yn rhan o'r rhestr wirio.

Gellid defnyddio offeryn gwirio iechyd meddwl ac iechyd corfforol Rethink i gynorthwyo cleifion i reoli eu hiechyd corfforol ochr yn ochr â phroblemau iechyd meddwl.

Yn ystod rowndiau ward dywedodd meddygon eu bod yn cael anhawster cael cydweithwyr meddygol i ddod i'r ward i asesu cleifion y credent fod ganddynt salwch corfforol sy'n achosi eu hymgyflwyniad presennol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu mewn modd amserol os oes ganddynt

broblemau iechyd corfforol ac i feddygon ar y ward deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr ar y wardiau cyffredinol.

Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau i ddatblygu ystafell ymlacio ar gyfer cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod grŵp cerdded wedi'i sefydlu ar gyfer y cleifion a bod mynediad i gampfeydd lleol ar gael os oedd angen. Fodd bynnag, roedd dros hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn anghytuno bod gweithgareddau hamdden a chymdeithasol digonol a phriodol ar gael.

Byddai'r cleifion yn elwa o raglen weithgareddau therapi galwedigaethol fwy cadarn a defnyddio therapïau amgen megis yoga i gynorthwyo cleifion i ddefnyddio technegau ymlacio yn hytrach na defnyddio meddyginiaeth.

Roedd gan y cleifion fynediad i ardd, ac roedd yr ardal hon wedi tyfu'n wyllt gyda nifer fawr o chwyn ynndi ynghyd â chelfi a oedd wedi torri. Gallai hwn fod yn ardal therapiwtig i gleifion dreulio amser ynndo. Rydym yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud i wella golwg a diogelwch yr ardd i gleifion.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Gwnaethom nodi bod yr holl weithwyr; staff y ward, uwch-staff rheoli a gweinyddu, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig ynghylch eu rolau a'r ffordd roedden nhw'n cefnogi ac yn gofalu am y cleifion. Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a godwyd gan y cleifion, a dangosodd hyn fod gan y staff agwedd ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Nodwyd bod mynedfa'r ward wedi'i chloi a bod system intercom i'r ward yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod.

Roedd ystafelloedd gwely en-suite i gleifion yn darparu safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd, ond gallai'r staff ddatgloi'r cloeon pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion trwy gnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Roedd gan bob drws ystafell wely banel y gellid gweld drwyddo a oedd yn galluogi staff i arsylwi o'r coridor heb orfod agor y drws a oedd yn golygu nad oeddent yn tarfu ar gleifion a oedd yn cysgu mwy nag a oedd rhaid. Yn ystod ein taith o amgylch yr ysbyty, gwnaethom nodi'n gadarnhaol bod y paneli hyn ar gau fel arfer er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion wrth i bobl fynd heibio'r ystafelloedd. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion nad oes ganddynt lenni ar ffenestri'r ystafelloedd

gwely ac roedd hyn yn amharu ar eu cwsg. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni priodol a diogel yn cael eu gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd y cleifion yn gallu rhoi gwedd bersonol ar eu hystafelloedd a storio eu heiddo eu hunain. Roedd eitemau personol yn cael eu hasesu ar sail risg unigol ar gyfer diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu os oedd angen.

Roedd y ward yn darparu lle ar gyfer mwy nag un rhywedd a all fod yn heriol o ran agweddau gofal ag urddas. Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom glaf benywaidd a oedd newydd gael ei derbyn i'r ward. Rhoddwyd y fenyw hon ar goridor y dynion gryn bellter i ffwrdd o'r swyddfa nyrsio, gan roi'r fenyw mewn sefyllfa fregus o bosibl. Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried gwahanu ar sail rhywedd a sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith, a bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn unol â hynny.

Roedd cyfleusterau golchi dillad yn yr ysbyty ac anogir cleifion i'w defnyddio gyda chymorth staff lle bo angen. Fodd bynnag, roedd un peiriant golchi wedi torri. Dywedodd staff wrthym fod y peiriant golchi a oedd wedi torri wedi bod felly ers tri mis. Dywedwyd wrthym fod tîm cynnal a chadw'r ysbyty wedi eu hysbysu o hyn ond nad oedd un newydd wedi cael ei roi yn ei le. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y peiriant golchi yn cael ei newid neu ei atgyweirio.

Dywedwyd wrthym fod staff yn parhau i wisgo iwniform wrth fynd â'r cleifion allan o'r ward ar gyfer gweithgareddau. Mae angen adolygu hyn gan ei fod yn fater yn ymwneud ag urddas y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nododd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pe bai angen. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus yn yr ysbyty

a bod y staff yn garedig a chymwynasgar. Roedd yn amlwg bod y staff a'r cleifion yn parchu ei gilydd a bod y berthynas rhyngddynt yn un ddiogel.

Gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol mewn cyfarfodydd unigol i ddarparu cymorth ac arweiniad ar eu cyfer, megis cyfreithwyr neu gynrychiolwyr eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, roedd eu teuluoedd a'u gofalywyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Roedd nifer o gyfarfodydd yn cynnwys cleifion a staff. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol ffurfiol a chyfarfodydd cymunedol grŵp.

Roedd gan y staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg iwniffformau oedd yn eu nodi fel siaradwyr Cymraeg. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion a'r ymwelwyr i gyfathrebu yn Gymraeg ag aelodau o'r staff.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos ar y ward ar gyfer y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posterï'n arddangos gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth a sut y gallai'r cleifion roi adborth ar y gofal yr oeddent yn ei dderbyn ar y ward. Roedd gwybodaeth am amseroedd ymweld hefyd wedi'i harddangos.

Gwelsom fod arwyddion clir yn y ward yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd bwrdd cipolwg yn dangos statws y cleifion yn y swyddfa nyrsio. Roedd y byrddau allan o olwg cleifion a oedd yn helpu i ddiogelu cyfrinachedd cleifion.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd rheoli statws gwelyau yn ddyddiol er mwyn cadarnhau'r nifer o welyau a chanddynt gleifion ynddynt, ac i drafod cleifion a oedd wedi'u lleoli mewn wardiau eraill o fewn y bwrdd iechyd neu gyda darparwyr annibynnol.

Mae gan Ward Bryngofal gyfres o ystafelloedd Adran 136 dynodedig. Roedd y gyfres o ystafelloedd yn cydymffurfio â safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), ac roedd gan ward yr ysbyty a'r heddlu brotocol a oedd wedi ei gytuno ynghylch defnyddio'r gyfres o ystafelloedd. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi gwneud gwelliannau i'r gyfres o ystafelloedd Adran 136 ers yr arolygiad diwethaf, fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn ystyried drychau arsylwi i helpu staff i wirio bod mynediad i fannau cudd neu gorneli yn yr ystafelloedd Adran 136 yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng yr heddlu a staff y wardiau i werthuso derbyniadau ac amllder y defnydd o'r ystafelloedd. Roedd yn gadarnhaol clywed y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd, ac adborth sefydliadol yn cael eu trafod yn ystod y sesiynau hyn a'u bwydo'n ôl i staff y ddau sefydliad. Mae gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r heddlu a defnydd effeithiol o'r ystafelloedd Adran 136 yn hanfodol i sicrhau bod y bobl sy'n ymgyflwyno â phroblemau iechyd meddwl yn cael y gofal cywir yn y lleoliad cywir. Roedd yn gadarnhaol gweld cynrychiolaeth o'r heddlu yn y cyfarfod rheoli statws gwelyau dyddiol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat er bod yr ystafell hon yn fach. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser oddi wrth y cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a gwelsom fod y dogfennau sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth ar gael yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi'u hyrwyddo a'u hamddiffyn fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. Trafodir ansawdd y dogfennau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Hawliau pobl

Roedd y dogfennau cyfreithiol a welsom i gadw cleifion dan y Ddeddf yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ar y wardiau i hysbysu'r cleifion, nad oedd wedi'u cyfyngu gan y Ddeddf, am eu hawliau i adael y ward.

Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael cyfle i gael copi o'u papurau cadw.

Oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â deddfwriaeth COVID-19, nid oedd ymwelwyr yn gallu mynd i'r ward yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gallai rhai o'r cleifion gwrdd â theulu a ffrindiau ar dir yr ysbyty. Gallai cleifion eraill gadw cysylltiad â theulu a ffrindiau trwy alwadau ffôn a fideo.

Gwranddo a dysgu o'r adborth

Roedd cyfarfodydd cleifion rheolaidd lle roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion a'u teuluoedd ar sut y gallent roi adborth neu fynegi pryder neu gŵyn. Roedd blychau awgrymiadau ar gael i'r cleifion a'u teuluoedd eu defnyddio i roi adborth am y gwasanaeth.

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff y ward y byddent yn ceisio datrys cwynion ar unwaith lle bynnag y bo modd. Roedd gan y bwrdd iechyd broses ar waith hefyd lle gallai'r cleifion uwchgyfeirio pryderon drwy weithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r bwrdd iechyd.

Roedd pecynnau rhyddhau o'r ysbyty hefyd yn cynnwys arolygon i'r cleifion eu cwblhau. Byddai rheolwr y ward yn adolygu'r rhain i weld lle mae angen gwelliannau neu lle'r oedd arferion da wedi'u hamlygu. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu a'i thrafod â'r staff.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Roedd ward yr ysbyty yn hygyrch ar gyfer y rheini sydd â symudedd cyfyngedig a chadeiriau olwyn. Roedd ystafelloedd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ar gael i gleifion gwrywaidd a benywaidd.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Roedd manau galw nyrsys hefyd o amgylch yr ysbyty ac o fewn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi'u cynnal gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol gan reolwr y ward.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, nid oedd yn glir a oedd y staff banc a ddefnyddir gan y ward wedi'u hyfforddi mewn ymyriadau corfforol i reoli ymddygiad ymosodol neu hunan-niweidiol y cleifion. Dywedodd rhai staff wrthym fod yr holl staff banc rheolaidd wedi'u hyfforddi, tra bod eraill wedi dweud wrthym nad ydynt. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan ddefnyddir staff banc ar y wardiau, fod nifer digonol o'r staff wedi'u hyfforddi mewn technegau ymyriad corfforol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ynghylch staff banc sy'n gweithio ar wardiau iechyd meddwl a'r hyfforddiant sydd ei angen.

Bu'r tîm arolygu yn ystyried y daith amgylcheddol o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad a'r diwrnodau canlynol. Daethom i'r casgliad yn dilyn ein harsylwadau bod angen rhai gwelliannau i'r amgylchedd gofal. Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd gofal yn rhydd o annibendod, ond roedd rhai rhannau o'r ward yn edrych yn llwm a chlinigol. Dyma'r meysydd i'w gwella:

- Mae angen adnewyddu ac ail-baentio swyddfeydd y staff a manau cymunol
- Mae angen gosod mainc newydd yn yr ardd yn lle'r un sydd wedi torri ac mae angen gwneud gwaith yn yr ardd
- Mae angen gosod lloriau cywir yn lle'r carpedi er mwyn atal peryglon a'r risg o haint

- Roedd y lloriau ym mhrif ardal y cleifion wedi'u marcio, wedi treulio, ac wedi'u difrodi a allai olygu perygl o haint
- Mae angen adnewyddu'r ardal diodydd poeth ac oer yn llwyr, a rhaid sicrhau bod oergell ar gael i'r cleifion (amlygwyd hyn mewn arolygiadau blaenorol)
- byddai cael gofod swyddfa dynodedig ar y ward ar gyfer meddygon a staff meddygol o fudd i'r cleifion a'r staff.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd ystod o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn manylu ar y gweithdrefnau rheoli heintiau amrywiol i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi'u cwblhau i wirio glanweithdra yr amgylchedd a gwirio cydymffurfedd â gweithdrefnau'r ysbyty.

Roedd offer glanhau wedi eu storio a'u trefnu'n briodol. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi pedwar blwch offer miniog llawn a oedd wedi'u storio ar lawr y clinig ar ail ddiwrnod yr arolygiad a oedd yn aros i gael eu gwaredu. Dylid cael gwared ar y rhain yn brydlon.

Yn ogystal, nid oedd caeadau'r blychau offer miniog sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u cau. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y blychau miniog llawn yn cael eu gwaredu a bod y caeadau yn cael eu cau.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau. Gwnaethom hefyd archwilio dogfennau COVID-19, a oedd yn cefnogi staff i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau.

Maeth a hydradu

Roedd cleifion yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion dietegol.

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fod bwydlen amrywiol yn cael ei harddangos a dywedodd y cleifion wrthym fod ganddynt ddewis o beth i'w fwyta. Roedd diodydd a byrbrydau ar gael trwy gydol y dydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a'u bod yn teimlo ei fod o ansawdd da. Fodd bynnag, roedd adborth ar y bwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiaduron yn amrywio; cytunodd hanner y cleifion fod y bwyd yn yr ysbyty yn dda a'i fod yn bodloni eu gofynion dietegol, tra bod hanner y cleifion yn anghytuno.

Fel y nodwyd uchod, roedd cegin fach agored ar gael i gleifion i wneud diodydd poeth neu oer, ond nid oedd oergell i gleifion storio'r llaeth a gwelsom laeth yn cael ei adael heb ei oeri. Roedd angen adnewyddu'r ardal gyfan hon.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisiau perthnasol, megis rheoli meddyginiaethau a thawelu cyflym, yn gyfredol ac ar gael i staff yn electronig ar gyfrifiaduron yn yr ystafelloedd clinig.

Roedd cofnodion meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau'n cael eu cynnal. Roedd tystiolaeth dda bod staff yn sicrhau bod gan y cleifion gynlluniau rheoli meddyginiaeth unigol. Roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn a bod trafodaethau wedi'u cynnal.

Mae monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion; fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod sgîl-ffeithiau meddyginiaeth yn cael eu trafod yn rheolaidd â'r cleifion. Er mwyn asesu'r cleifion yn llawn am unrhyw sgîl-ffeithiau o feddyginiaeth, dylid defnyddio graddfa sgorio.

Mae angen cofnodi monitro iechyd corfforol yn fwy helaeth fel y crybwyllwyd yn flaenorol. Mae magu pwysau yn sgîl-ffaith gyffredin ac felly dylid cyfeirio cleifion at yr adran ddeieteg os yw'r cynnydd mewn pwysau yn ormodol er mwyn cael cymorth pellach.

Roedd mewnbwn ac archwiliadau rheolaidd yn cael eu darparu gan y fferyllfa, a oedd yn cynorthwyo'r gwaith o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau ar y ward. Y fferyllydd dynodedig, sy'n dilyn cwrs rhagnodi ar hyn o bryd, yw'r unigolyn sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o feddyginiaeth. Roedd yna dystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd o'r oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd argymelledig y gwneuthurwr.

Roedd trefniadau ar waith ar y ward ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n debygol o gael eu camdefnyddio. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd ac roedd y llofnodion nyrso priodol yn cadarnhau bod y gwiriadau wedi'u cynnal.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a adolygwyd wedi'u cwblhau'n llawn gan staff. Gwelsom nifer o rowndiau rhoi meddyginiaeth, a gwelsom fod staff yn eu cynnal yn briodol ac yn broffesiynol, gan ryngweithio â chleifion yn barchus ac yn ystyriol.

Roedd yr ystafell glinigol wedi'i threfnu'n dda ar y cyfan; fodd bynnag, roedd y silffoedd yn flêr a dylid ystyried cael cyfarpar storio mwy cadarn gan fod y silffoedd yn edrych yn orlawn ac yn anniogel. Roedd blwch Cymorth Cyntaf y ward yn cael ei storio ar ben y cypyrddau yn y clinig, gan ei gwneud yn anodd ei gyrraedd, os oedd ei angen. Roedd y cynnwys yn gyflawn ac yn gyfredol.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod staff yn diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gan atgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Roedd gan staff y ward fynediad at weithdrefnau diogelu'r Bwrdd Iechyd trwy ei fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff y ward eu bod yn hyderus bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar offer dadebru ac achosion brys a gedwir ar bob ward. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y rhain wedi digwydd i sicrhau bod yr offer yn bresennol a heb ddyddio.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd pibellau ocsigen a mwgwd ynghlwm wrth y silindr ocsigen ar y troli brys sy'n galluogi staff i ymateb yn brydlon yn ystod argyfwng. Daethom â hyn i sylw rheolwr y ward, a roddodd sicrwydd i ni fod yr eitemau yn bresennol ond nad oeddent yn weladwy a chafodd hyn ei ddatrys ar unwaith.

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaeth yn digwydd yn dilyn digwyddiadau. Cawsom gadarnhad, o'r cyfarfodydd a fynychwyd gennym a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad, fod digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol yn cael eu gwirio a'u goruchwylio'n drylwyr.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein trafodaethau â staff wardiau ac uwch-reolwyr, cawsom nifer o enghreifftiau o adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar y ward a'r bwrdd iechyd ehangach. Roedd hyn er mwyn helpu i foderneiddio'r gofal a rhoi arloesedd ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth. Ers ein harolygiad diwethaf, roedd y bwrdd iechyd wedi ailgynllunio'r gyfres o ystafelloedd Adran 136 gan ganiatáu i'r person sy'n cael ei asesu neu'n aros i gael ei asesu, gael mynediad i ardd fechan heb iddo orfod cerdded drwy ardal gymunol y brif ward.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y bwrdd iechyd gytundeb sefydledig ag Ambiwllans Sant Ioan i gefnogi staff a chleifion gydag unrhyw drefniadau teithio ar gyfer derbyniadau neu ryddhau.

Roedd hefyd yn gadarnhaol clywed am y cynlluniau parhaus sy'n datblygu lle roedd y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar gadw cleifion yn lleol drwy'r cyfarfodydd cynadledda dyddiol ynglŷn â gwelyau.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig. Roedd y system electronig wedi'i diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad a chanfuwyd bod cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion a chynlluniau gofal y cleifion wedi'i nodi yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer tri chlaf ar Ward Bryngofal.

Canfu i bob cyfnod cadw o gleifion fod yn gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth ac wedi'u dogfennu'n dda. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu llywio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod nifer o dystysgrifau cydsynio i driniaeth wedi dod i ben, sy'n golygu nad oedd rhoi meddyginiaeth wedi'i awdurdodi. Yn ogystal, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod Adran 62 yn cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion yr oedd y dystysgrifau wedi dod i ben.

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn adolygu ei ffurflenni Adran 62 a sicrhau bod y tîm iechyd meddwl yn derbyn y ffurflenni cyn diwedd y diwrnod gwaith i sicrhau bod yr holl dystysgrifau yn gyfredol a bod y cofnodion cywir wedi'u dogfennu er mwyn i feddyginiaeth gael ei hawdurdodi.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal tri chlaf. Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau gofal a chanfuom eu bod wedi'u cadw i safon dda.

Roedd y nodiadau'n gynhwysfawr a chafodd offerynnau asesu cydnabyddedig eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Roedd asesiadau anghenion a risgiau cynhwysfawr wedi'u cwblhau drwy'r broses derbyn cleifion gyfan a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r strategaethau gofal a rheoli risg a weithredwyd ar y ward. Roedd dystiolaeth glir o gyfranogiad

amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Cafodd rheolaeth o ymddygiadau cleifion ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a phroffil rheoli risg, ynghyd â hyfforddiant staff i ddefnyddio sgiliau i reoli a thawelu sefyllfaoedd anodd.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod ffeiliau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac wedi'u llofnodi gan y claf, yn dangos yn glir bod y cleifion yn cymryd rhan mewn trafodaethau gofal. Roedd cofnodion hefyd yn cynnwys barn y cleifion a defnyddiwyd dyfyniadau gan y cleifion i adlewyrchu eu barn. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn natblygiad eu cynllun gofal a thriniaeth. Yn gyffredinol, roedd y dogfennau nyrso a welwyd yn dda a'r asesiadau corfforol yn hollgynhwysol.

Yn ystod yr adolygiad o gynlluniau gofal, gwnaethom nodi nad oedd lle yn y dogfennau i gofnodi sgîl-effeithiau, a byddai graddfeydd graddio i fonitro'r rhain wedi bod yn ddefnyddiol. Hefyd, nid yw galluedd yn cael ei gofnodi'n rheolaidd mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch gofal ac nid oedd unrhyw le i gofnodi hyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur sefydliadol clir ar gyfer yr ysbyty, a oedd yn darparu llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y rhain yn diffinio'r trefniadau yn ystod y dydd, ac roedd uwch-reolwyr a systemau ar alwad ar waith ar gyfer y shift nos.

Roedd arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol gan uwch aelodau staff y ward, a oedd yn cael eu cefnogi gan dimau ward ymroddedig amlddisgyblaethol ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos i fod yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol ynghyd â pherthnasoedd da rhwng staff y gwelsom eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd yn amlwg bod y staff yn ymdrechu i ddarparu lefel uchel o ofal i'r grwpiau cleifion er mwyn cyflymu'r broses o wella ac i leihau'r cyfnod o amser yn yr ysbyty. Roedd gweithio agos a chynhyrchiol gyda'r timau iechyd meddwl cymunedol yn cefnogi hyn.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd yn gyflym i staff yn sgîl cwynion a digwyddiadau yn yr ysbyty a'r sefydliad ehangach. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd ers ein harolygiadau blaenorol yn yr ysbyty. Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff yn yr ysbyty'n fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Gweithlu

Roedd lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i sicrhau diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, ar y noson pan wnaethom gyrraedd, nodwyd mai dim ond un nyrs gymwysedig oedd ar ddyletswydd ar gyfer y shift nos, yn lle'r ddwy ddisgwyliedig. Roedd y gwaith yn cael ei gyflawni gan gynorthwydd gofal iechyd.

Roedd y staff yn dangos gwaith tîm cryf ac yn ymddangos yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal ymroddedig i'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan gydweithwyr, ac am yr arweinyddiaeth gan eu rheolwyr.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol yn ffeiliau'r staff ac roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant staff. Er ei bod yn amlwg bod rheolwr y ward yn monitro hyn, roedd diffygion mewn hyfforddiant gorfodol. Y ffigurau hyfforddi ar gyfer codi a chario oedd 18.75%, a 38.71% ar gyfer cynnal bywyd sylfaenol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant a bod uwch-reolwyr yn craffu ar gydymffurfedd hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfedd. Cawsom ein sicrhau gan reolwr y ward fod hyfforddiant ar gyfer y cyrsiau y soniwyd amdanynt eisoes wedi'i drefnu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Bryngofal

Dyddiadau'r arolygiad: 11 - 13 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Bryngofal - Ysbyty'r Tywysog Philip

Dyddiadau'r arolygiad: 11 - 13 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cleifion i gael eu hasesu mewn modd amserol os oes ganddynt broblemau iechyd corfforol a meddygon ar y ward i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr ar y wardiau cyffredinol.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Uwch-staff meddygol o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Aciwt Cyffredinol yn Ysbyty'r Tywysog Philip i gysylltu a thrafod sut y gellir gwella cyfathrebu i feddygon er mwyn cefnogi asesiadau a chymorth amserol	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt - Iechyd Meddwl, a Chyfarwyddwr Clinigol Ysbyty'r Tywysog Philip	30 Tachwedd 2022
Rhaid gwneud gwaith i wella golwg yr ardd.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Bydd yr adran ystadau yn adolygu'r ardd ac yn nodi cynllun gwaith i wella'i golwg.	Pennaeth yr Adran Ystadau	30 Tachwedd 2022

Gosod llenni priodol a diogel yn ystafelloedd gwely'r cleifion	4.1 Gofal ag urddas	Yr adran ystadau i adolygu'r amgylchedd yn yr ystafelloedd gwely a nodi cynllun gwaith i osod llenni newydd	Pennaeth yr Adran Ystadau	30 Tachwedd 2022
Ystyried lle y lleolir merched ar y coridor gwrywaidd a sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith a bod cynlluniau gofal yn cael eu diweddarau.		Gwneir asesiad risg o bob derbyniad i ystyried risgiau ac a ydynt yn agored i niwed o ran rhyw/rhywedd. Sicrhau bod y cynllun gofal a'r Cynllun Rheoli Risgiau a dyraniad yr ystafelloedd gwely yn adlewyrchu'r cynllun hwn.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Gorffennaf 2022
Y peiriant golchi i gael ei newid neu ei atgyweirio.	4.1 Gofal ag urddas	Yr adran ystadau i wneud y gwaith a gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y peiriant golchi i gael ei drefnu.	Pennaeth yr Adran Ystadau	Rhagfyr 2022
Adolygu a yw staff yn gwisgo iwniform wrth fynd â chleifion allan ar weithgareddau o'r ysbyty.	4.1 Gofal ag urddas	Anfonwyd nodyn at yr holl staff yn nodi bod angen iddynt ddod â'u dillad eu hunain i'r gwaith i'w gwisgo wrth hebrwng cleifion ar ymweliadau ymaith o'r ward.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Gorffennaf 2022

Buddsoddi mewn drychau arsylwi priodol i alluogi staff i weld manau cudd yn y gyfres o ystafelloedd Adran 136.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr adran ystadau i adolygu'r amgylchedd a llunio cynllun gwaith i sicrhau bod drychau arsylwi priodol yn cael eu defnyddio	Pennaeth yr Adran Ystadau	Rhagfyr 2022
Adolygu'r polisi ynghylch hyfforddi staff banc mewn ymyriadau corfforol ar wardiau iechyd meddwl.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr Uwch-nyrs a'r Rheolwr Ward wedi cyfarfod â Rheolwr y Swyddfa Nyrsys Banc. Cytunwyd unwaith y bydd staff banc wedi cwblhau shifftiau cysgodi, bydd hyfforddiant ymyriadau arfer cyfyngol yn cael ei drefnu cyn iddynt ddechrau gweithio'n annibynnol ar y ward	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs Rheolwr Swyddfa y Nyrsys Banc.	Cwblhawyd Gorffennaf 2022
Mae angen adnewyddu ac ail-baentio swyddfeydd y staff a'r manau cymunol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr adran ystadau i adolygu a threfnu bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar yr amgylchoedd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith	Pennaeth yr Adran Ystadau	Mawrth 2023
Mae angen gosod lloriau cywir yn lle'r carpedi er mwyn atal peryglon a'r risg o haint	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr adran ystadau i wneud gwaith a threfnu bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y lloriau a'r amgylchoedd yn cael ei drefnu.	Pennaeth yr Adran Ystadau	Rhagfyr 2022

Roedd y lloriau ym mhrif ardal y cleifion wedi'u marcio, wedi treulio, ac wedi'u difrodi a allai olygu perygl o haint		Yr adran ystadau i adolygu hyn		
Mae angen adnewyddu'r ardal te yn llwyr, a rhaid sicrhau bod oergell ar gael i'r cleifion.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr adran ystadau i adolygu a darparu oergell a threfnu y gwneir gwaith chynnal a chadw rheolaidd yn yr ardal te a'r ardal o'i amgylch.	Pennaeth yr Adran Ystadau	Mawrth 2023
Gofod swyddfa dynodedig i fod ar gael ar y ward ar gyfer y meddyg a'r staff meddygol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Uwch-nyrs a'r Rheolwr Ward wedi nodi ardal ar gyfer hyn. Angen i'r adran ystadau wneud gwaith i addasu'r ardal.	Pennaeth yr Adran Ystadau	Mawrth 2023
Rhaid gwaredu blychau offer miniog sy'n llawn	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r porthorion wedi casglu'r blychau offer miniog. Mae gweithdrefn mewn lle i gysylltu â'r porthorion i'w casglu yn y dyfodol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Gorffennaf 2022

Rhaid i gaeadau fod ar flychau offer miniog pan fyddant yn cael eu defnyddio	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Anfonwyd nodyn at y staff i'w hatgoffa i sicrhau bod caeadau ar bob blwch offer miniog pan fyddant yn cael eu defnyddio.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Gorffennaf 2022
Silffoedd newydd i'w gosod yn yr ystafell glinigol a'r silffoedd i gael eu had-drefnu	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr adran ystadau i wneud gwaith, a threfnu gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer y silffoedd a'r ardal o'u hamgylch. Y silffoedd i gael eu had-drefnu unwaith y bydd gwaith yr adran ystadau wedi'i gwblhau.	Pennaeth yr Adran Ystadau Rheolwr y Ward	Rhagfyr 2022
Ffurflenni cydsynio i driniaeth a ffurflenni Adran 62 i gael eu hadolygu a sicrhau eu bod yn gyfredol	3.5 Cofnodion Cadw	Y broses o adolygu'r ffurflen Cydsynio i Driniaeth wedi'i chynnal. Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi hysbysu'r ward o'r dyddiadau pan ddaw tystysgrifau i ben. Mae'r dyddiadau hyn hefyd yn cael eu gwirio bob pythefnos gan y tîm amlldisgyblaethol a'r fferylllydd yn ystod rownd y ward ac yn y cyfarfod busnes.	Rheolwr y Ward Adran Ddeddf Iechyd Meddwl	Cwblhawyd Gorffennaf 2022
Mae nodiadau gofal yn cofnodi sgil-efeithiau, ac mae graddfeydd graddio i fonitro'r rhain.	3.5 Cofnodion Cadw	Sgil-efeithiau meddyginiaethau i'w cofnodi mewn adroddiadau	Uwch-nyr	Cwblhawyd Gorffennaf 2022

		cryno yn ystod rownd y ward, a graddfa sgorio LUNSER i'w defnyddio os oes angen, mae hyn wedi'i gyfleu i'r staff drwy e-bost a nodyn atgoffa.			
Sicrhau bod y capasiti sydd ar gael yn cael ei gofnodi'n rheolaidd mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch gofal gan nad oedd unrhyw le i gofnodi hyn.	3.5 Cofnodion	Cadw	Mae adroddiad cryno yn ystod rowndiau ward wedi'i ddiwygio i fedru nodi'r capasiti sydd ar gael ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Mae capasiti bellach yn cael ei gofnodi mewn adroddiadau cryno yn ystod rownd y ward.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd Gorffennaf 2022
Angen gwella ffigurau hyfforddiant gorfodol.	7.1	Y gweithlu	Cynllun gwella yn ei le ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac mae hwn yn cael ei fonitro'n wythnosol gan Reolwr y Ward a'r Uwch-nyrs.	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs	Cwblhawyd Gorffennaf 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth Lisa Bassett

Enw (llythrennau bras): Lisa Bassett

Swydd: Rheolwr y Ward

Dyddiad 7/9/22